

Smotiau Rhydd

Beth am 'Chwarae i Ddysgu'?

- Gofynnwch i'r plant osod nifer o smotiau/marcwyr mewn lle penodol
- Bydd un plentyn (y chwiliwr smotiau) yn troi ei gefn ar y lle dan sylw, a bydd y plant eraill (ceidwaid y smotiau) yn gosod gwahanol wrthrychau ar rai o'r smotiau, gan adael o leiaf un smotyn yn rhydd
- Pan fydd y plant eraill yn rhoi signal, bydd y chwiliwr smotiau'n troi ac yn galw lliw smotyn rhydd, neu'r rhif neu'r siâp sydd ar y smotyn, neu safle'r smotyn, ac ati
- Pan roddir signal arall, bydd y chwiliwr smotiau'n troi ac yn symud i sefyll ar smotyn rhydd
- Dylai'r plant gyfnewid lle ar ôl cael sawl tro

Geiriau allweddol

- Rheolaeth, sgiliau cydsymud, cydbwysedd
- Edrych, chwilio
- Rhydd, lle, swigen, ymwybyddiaeth ofodol
- Rhedeg, cerdded, cropian, milwyr yn cropian, llwynogod, neidio a glanio



Cyfleoedd i:

- symud mewn gwahanol ffyrdd
- dechrau archwilio lleoedd yn ddiogel
- gwella sgiliau arsylwi

Adnoddau

- Marcwyr dros dro, bagiau ffa, amrywiaeth o offer bach
- Ystod o offer ar gyfer gwneud synau/rhoi signalau

Cwestiynau

- Pam dewisoch chi bob signal?
- Mewn sawl gwahanol ffordd symudoch chi at y smotyn rhydd?
- Beth osodoch chi ar smotyn, a pham?
- P'un sydd hawsaf: dod o hyd i'r smotyn rhydd pan fydd y smotiau'n agos at ei gilydd neu pan fyddant ymhell oddi wrth ei gilydd? Pam?

Diogelwch a threfn

Sicrhewch:

- bod yr arwyneb yn lân ac yn rhydd o rwystrau
- na ellir llithro ar y marcwyr; bod digon o bellter rhyngddynt a'u bod nhw'n ddigon pell oddi wrth waliau/offer
- bod y plant yn gweithio mewn grwpiau bach
- bod y plant yn cytuno ar signalau ac yn cytuno sut byddant yn symud cyn iddynt ddechrau

A allwch chi weld y plentyn?

- Yn symud mewn gwahanol ffyrdd?
- Yn dechrau archwilio lleoedd yn ddiogel?
- Yn gwella ei sgiliau arsylwi?

weithiau

gan amlaf

Anogwch y plentyn i:

- ddod o hyd i'r smotyn rhydd â help, e.e. trwy afael yn eich llaw. Byddwch yn arweinydd y gall y plentyn ei ddilyn gan drafod ble i symud a sut i symud
 - defnyddio'i hoff ddull o symud, er mwyn cyfyngu ar y broses o orfod penderfynu sut i symud
- Cyfyngwch ar nifer y smotiau, fel bod llai o bethau i'w hystyried, e.e. defnyddiwch ddau smotyn, â rhywbeth ar un ohonynt a'r llall yn wag
- Defnyddiwch saethau cyfeirio i helpu'r plentyn i ddod o hyd i'r smotyn rhydd
- Sicrhewch bod digon o le rhwng y smotiau

Anogwch y plentyn i:

- symud mewn amrywiaeth o ffyrdd, a defnyddio 'ciwb symudiadau' i benderfynu sut bydd yn symud
- defnyddio gwrthrychau llai amlwg i'w gosod ar y smotyn
- rhedeg i ffwrdd o'r ardal chwarae, dychwelyd cyn gynted ag y gall a chwilio am y smotyn rhydd; neu basio gwrthrych o gwmpas ei gorff fel ei fod yn canolbwyntio ar rywbeth arall, ac yna'n canolbwyntio'n gyflym ar ddod o hyd i'r smotyn rhydd

Cyfleoedd campus

- Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol: Datblygiad cymdeithasol - rhannu lle ac offer
- Datblygu Meddwl ar draws y curicwlwm: Cynllunio – dewis beth i'w wneud a sut i'w wneud o blith opsiynau a roddir; Myfyrio – adolygu proses a dull